**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 8 Chwefror 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | W Evans | R Francis-Davies |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Thomas | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child a/ac D H Hopkins

---

**115. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**116. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2018.

**117. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**118. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**119. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 120. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2017/18.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes a oedd yn nodi'r broses o fonitro ariannol cyllidebau refeniw a chyfalaf 2017/2018, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

## 121. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 122. Cyfle Buddsoddi Canol Dinas

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gaffael yr eiddo uchod fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi mewn Eiddo. Cafodd y gronfa ei chreu ar ôl penderfyniad gan y Cabinet ar 21 Gorffennaf 2016.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r argymhellion fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.15 am

**Cadeirydd**

**Cyhoeddwyd: 08 Chwefror 2018**